# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glangarnant House (Oedolion Iau)**

**Glan Garnant**
**Heol Neuadd**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Glangarnant House (Oedolion Iau)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Ebrill 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r tîm yng nghartref Glangarnant House yn adnabod y bobl maent yn eu cefnogi yn dda ac yn cynnal eu hurddas a'u hunigolrwydd. Mae'r gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r prif ffocws ar yr 'hyn sy'n bwysig i'r bobl'. Mae'r cynlluniau personol yn gywir ac yn fanwl. Mae'r broses adolygu wedi gwella, ac mae cynrychiolwyr y bobl yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r broses.

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth bersonoli eu hardaloedd byw. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r cartref fel rhan o raglen cynnal a chadw. Mae Glangarnant House yn teimlo fel 'cartref teuluol' a chaiff ei ddisgrifio fel cartref croesawgar.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith gydag archwiliadau amlwg ac ymweliadau chwarterol yn cael eu cwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r broses recriwtio yn gadarn a gwnaed gwelliannau mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Caiff hyfforddiant ei ddarparu fel y bo angen ac mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u dewisiadau. Maent yn gwybod beth sy'n gweithio o ran eu harferion a'u galluoedd, i sicrhau bod y bobl yn cael y budd mwyaf o'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

Caiff unigolrwydd y bobl ei barchu a chânt gymorth i wneud dewisiadau. Dywedwyd wrthym sut y caiff penderfyniadau eu cefnogi mewn gwahanol ffyrdd. Gall hyn gynnwys defnyddio cardiau fflach wrth ystyried opsiynau ar gyfer gweithgareddau'r diwrnod neu alluogi rhywun i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel wrth ddewis lleoliad ei wyliau nesaf. Dywedodd aelodau'r teulu wrthym *“They love activities and going out and about“.*

Mae'r bobl yn hapus ac yn iach ac yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae ganddynt bethau i edrych ymlaen atynt. Mae hyn yn eu galluogi i gyflawni'r llesiant gorau posibl o ran eu hiechyd corfforol ac emosiynol. Dywedodd un teulu wrthym am ddiwrnodau thema y mae'r cartref yn eu trefnu a dywedodd, *“They are a creative bunch”.* Gwelsom gynlluniau yn cael eu gwneud i'r bobl fwynhau digwyddiad chwaraeon a oedd yn cael ei wylio ar y teledu y penwythnos hwnnw. Cafodd y cartref ei addurno a chafodd y bobl eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio'r digwyddiad. Dywedodd y bobl wrthym am y gwyliau yr oeddent wedi'u cynllunio a gwnaethant ddangos eu cynllunwyr gweithgareddau wythnosol. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn rhan o'u cymuned leol a'r gymuned ehangach a chânt gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir.

Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac yn gwybod beth i'w wneud ac â phwy i gysylltu os oes ganddynt bryderon diogelu. Pan fydd gan bobl lai o alluedd i wneud penderfyniadau, caiff yr asesiadau gofynnol eu cwblhau a chynhelir cyfarfodydd i wneud penderfyniadau budd pennaf. Mae'r awdurdodiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cael eu cymhwyso lle bo angen ac mae cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl. Roedd adborth gan deuluoedd yn cynnwys “*We trust them – the main thing is X is happy”.*

Mae'r bobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu cefnogi i leisio barn. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r bobl drwy'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth ar gael mewn fformatau sy'n gweddu i alluoedd cyfathrebu'r unigolyn. Gallant edrych ar eu cylchlythyrau sy'n dangos y gweithgareddau maent wedi cymryd rhan ynddynt. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr/teulu eu gwahodd i fynychu adolygiadau chwarterol a chaiff adolygiadau misol parhaus eu cynnal gan y gweithwyr allweddol. Dywedodd aelodau o'r teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym *“We couldn’t want for more”.*

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol manwl a chywir ar gael i'r gweithwyr cymorth. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn; gan helpu'r bobl i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau unigol. Caiff nodau a chanlyniadau eu hadolygu bob mis mewn cyfarfodydd gweithwyr allweddol. Dywedodd y staff fod arsylwadau, yn ogystal ag adborth, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau mewn perthynas â'r broses adolygu chwarterol. Caiff aelodau o'r teuluoedd a chynrychiolwyr gyfle i fynychu adolygiadau. Dywedodd aelodau o'r teuluoedd wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau personol y bobl ac wrth eu hadolygu, a'u bod yn helpu i bennu nodau a chanlyniadau newydd. Roedd adborth gan deuluoedd yn cynnwys: “W*e couldn't be happier"* a *"They are an exceptional bunch".*

Caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod y gweithiwr proffesiynol cywir yn darparu cymorth pan fo angen. Caiff cyfarfodydd eu cynnal ag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol gan roi'r brif flaenoriaeth i lesiant y bobl. Gwelsom adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cynnal fel y bo'n ofynnol. Mae'r staff yn monitro effeithiau meddyginiaeth, ac mae hyn yn rhan o'r broses adolygu barhaus.

Caiff meddyginiaethau eu storio a'u rhoi fel y bo'n ofynnol ac yn unol â pholisi'r sefydliad. Caiff archwiliadau dyddiol ac wythnosol eu cynnal ac mae mesurau ar waith i wella ymarfer. Mae hyfforddiant a gwiriadau cymhwysedd parhaus y staff yn gyfredol. Mae'r staff yn ymwybodol o'r prosesau diogelu i'w dilyn os bydd angen.

Mae'r lefelau staffio yn unol â'r lefel cymorth ddynodedig sy'n ofynnol ar gyfer y bobl sy'n byw yng nghartref Glangarnant House. Mae'r rotas a welwyd yn dangos hyn. Gwelsom fod gan y staff ddigon o amser i'r bobl a'u bod yn dangos amynedd atynt. Ceir polisi drws agored yn y cartref sy'n sicrhau y gall y bobl ymweld â'r swyddfa pryd bynnag y byddant am wneud hynny. Dywedodd y staff wrthym fod y lefelau staffio yn dda ar y cyfan, a phan geir achosion o absenoldeb annisgwyl, caiff staff ychwanegol fel arfer eu trefnu. Caiff amser ei neilltuo i'r rheolwr a'r dirprwy reolwr ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli.

## Amgylchedd

Cynhelir gwiriadau a phrofion ar gyfarpar yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo diogelwch yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys profion larwm tân a gwiriadau cyfarpar tân rheolaidd. Gwelsom gofnodion o ymarferion gwagio'r adeilad oherwydd tân. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl. Mae cofnodion o wiriadau ar gyfer gosodiadau trydanol a gosodiadau olew ar waith. Mae gan aelodau unigol o'r staff

gyfrifoldebau dynodedig ar gyfer archwiliadau a rolau hyrwyddo ar gyfer meysydd penodol fel atal a rheoli heintiau. Gwnaethom nodi fod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn ffres a bod y bobl yn cael eu cefnogi i sicrhau bod eu hystafelloedd gwely a'r ardaloedd byw yn lân fel rhan o'u harferion dyddiol. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i olchi eu dillad.

Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd byw wedi'u personoli ac maent yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i'r bobl. Mae gan y bobl eitemau personol a phethau o ddiddordeb yn eu hystafelloedd sy'n hygyrch neu'n cael eu rheoli o fewn eu hasesiadau risg unigol. Os bydd angen i'r bobl ddefnyddio byrddau cyfathrebu/sialc, mae'r rhain ar gael yn eu hystafelloedd gwely. Caiff ffotograffau ac eitemau o ddiddordeb a décor eu dewis gan yr unigolyn os bydd am wneud hynny. Ers yr arolygiad diwethaf, gosodwyd rhai ffenestri newydd. Mae cyfyngwyr ar y ffenestri. Mae ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl eu defnyddio yn y cartref ac ar dir y cartref. Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd i'w weld yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ond gwnaethom nodi nad oedd gan un ystafell ymolchi y gosodiad lamp angenrheidiol. Roedd y rheolwr wedi nodi'r mater hwn yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Ymatebodd y rheolwr yn brydlon a chafodd ei newid y diwrnod canlynol.

Ers yr arolygiad diwethaf, rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gwasanaeth. Gwelsom y staff yn helpu'r bobl yn y gegin i goginio pastai cyw iâr, cennin a madarch cartref i swper. Roedd y bobl yn cymryd rhan yn ddiogel ac roeddent wrth eu bodd ac yn falch iawn o'r swper roeddent wedi'i wneud.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r trefniadau recriwtio yn gadarn a chynhelir gwiriadau manylion adnabod a gofynnir am eirdaon fel rhan o'r broses recriwtio. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cwblhau. Mae'r broses hon wedi gwella, gan sicrhau y gwneir cais am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod ar waith o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, fel y bo'n ofynnol.

Caiff staff newydd eu cefnogi drwy raglen sefydlu yn unol â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff cyfnod cysgodi ei gynllunio a chynhelir cyfarfodydd un i un rheolaidd fel rhan o'r broses sefydlu. Er bod gan gartref Glangarnant House dîm sefydledig o staff, mae'r broses recriwtio ddiweddar wedi sicrhau bod pob swydd wedi'i llenwi. Dywedodd yr aelodau o'r teuluoedd a'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym; *"The core team is very established and a lot of staff have been at the home since it opened*".

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. *"We have great management support"* a "*Yes I am 100% supported and the RI and Regional director visit regularly".* Darperir sesiynau goruchwylio unigol i bob aelod o'r staff bob chwarter, a chynhelir arfarniadau blynyddol. Darperir hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall y staff

gefnogi'r bobl sy'n byw yng nghartref Glangarnant House yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gofynnol fel Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Rheoli Heintiau. Darperir cyfuniad o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r sesiynau wyneb yn wyneb yn cynnwys Rheoli Ymddygiad Personol ac Ymwybyddiaeth o Epilepsi. Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant gyffredinol yn dda iawn. Nodwyd gennym fod rhai o'r staff yn dal i aros am hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Epilepsi, ond cawsom sicrwydd fod dyddiadau wedi'u trefnu'n fuan ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael gwasanaeth sy'n gwella. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cwblhau adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r rheolwr yn dyrannu cyfrifoldebau archwilio i aelodau o'r tîm ac mae'r staff a gaiff eu penodi yn gyfrifol am hyrwyddo meysydd penodol fel atal a rheoli heintiau a meddyginiaeth.
Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i wella ac yn anelu at wella bywydau'r bobl sy'n byw yng nghartref Glangarnant House.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid yw cynrychiolwyr y bobl yn cael eu gwahodd i'r adolygiadau gofal chwarterol. | Cyflawnwyd |
| 35 | Ni wneir cais am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau eu bod ar waith o fewn y cyfnod gofynnol o dair blynedd. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/06/2023